

GWYDDONIAETH

Mae gwyddoniaeth o'n cwmpas ni bob dydd, o fudiant ceir, y meddyginiaethau y cymerwn, i siarad gyda Siri ar ein ffonau.

Wrth i dechnoleg ddatblygu yn y maes hwn, gallech weithio mewn deallusrwydd artifffisial a gyda robotiaid, hyd yn oed! Dysgwch am y llwybrau gyrfaedd yn y sector hwn:

Gwyddor Fforensig

Ymchwilio i safleoedd trosedd byw a chynorthwyo'r heddlu, ditectifs a'r llysoedd i ymchwilio i'r drosedd. Byddwch yn rhoi sylw agos at fanylion, yn amyneddgar ac yn meddu ar ddull gweithredu proffesiynol at waith.

Peirianneg Roboteg (Mecatroneg)

Adeiladwch robotiaid y dyfodol. Byddwch yn ymchwilio i robotiaid, eu dylunio a'u hadeiladu nhw yn ogystal â'r systemau cyfrifiaduron y defnyddiant ar gyfer adborth a phrosesu gwybodaeth. Maes cyffrous ac arloesol sy'n datblygu'n barhaus.

Deallusrwydd Artifffisial (AI)

Gelwir hefyd yn ddeallusrwydd peiriannau, byddwch yn gweithio gyda chymwysiadau sy'n dynwared ymddygiadau gwybyddol dynol. A hwnnw eisoes yn bwnc llosg yn y newyddion, e.e. ceir heb yrrwyr a botiau

sgwrsio gwe, arhoswch yn rheng flaen y maes a dilynwch yrfa yn y diwydiant hwn.

Gwyddor Fiofeddygol

Gan ddefnyddio'ch gwybodaeth ddofn o fioleg ac anatomi, byddwch yn cynghori meddygon a gweithwyr meddygol proffesiynol ar sut i roi diagnosis a thrin afiechydon. Gan brofi samplau o waed a meinweoedd, byddwch yn gweithio mewn labordai naill ai yn y diwydiant neu'r GIG, un o gyflogwr mwyaf y DU.

Microbioleg

Y datrysyr problemau ym meysydd megis meddygaeth, amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, mae microbiolegwyr yn archwilio microbau a'u heffeithiau. Byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth i awgrymu datrysiadau i helpu i gadw ein hamgylchedd ac amddiffyn iechyd cyhoeddus.

Dolenni Defnyddiol

www.careerswales.com

Gwefannau Gyrfa Cymru

www.stem.org.uk

Gwefan STEM (dysgu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg)



DIM OND

1/5

O FYFYRWYR
FFISEG
LEFEL A SY'N
FERCHED

BYDD 1
MEWN 5
SWYDD
NEWYDD

YN Y DU ERBYN
2022 YN
GOFYN SGILIAU
GWYDDONIAETH



MAE 72% O HOLL FUSNESAU Y DU YN DIBYNNU
AR BOBL SYDD Â SGILIAU GWYDDONIAETH.

ERBYN 2022, BYDD ANGEN 4,500 O
WYDDONWYR AR GYMRU



Y CYFLOG CYCHWYNNOL AR
GYFARTALED I RADDEDIGION YW

£21,702 Y FLWYDDYN!

(ffynhonnell Gyrfa Cymru)

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	CK	CN	PP
Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 2	1 flwyddyn		✓	
Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 (Diploma Estynedig)	2 flynedd	✓	✓	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: CK - Campws Crosskeys / CN - Campws Dinas Casnewydd / PP - Campws Pont-y-pŵl

